

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

20.07.16

Y Swyddfeddydd Dinesig, Pen y bont ar Ogwr

Presennol	Sefydliad
Alison Standfast	Llywodraeth Cymru
Darren Mepham	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Deanne Martin	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Hilary Dover	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Joanne Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Judith Tomlinson	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Martin Jones	Heddlu De Cymru
Martyn Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Wendy Evans	De Cymru Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Ymddiheuriadau	
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bonnie Navarra	De Cymru Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Eirian Jenkins	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Katy Chamberlain	Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr
Peter Vaughan	Heddlu De Cymru
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Stephen Cook	Cymoedd I'r Arfordir
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru
Vaughan Jenkins	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Hefyd yn bresennol	
Judith Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Lee Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Yuan Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr

Eitem ar yr Agenda	Sylwadau	Cam Gweithredu
1	Croeso	
1.1	Croesawodd DM bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb ddweud pwy yr oeddent er budd yr aelodau newydd.	
2	Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13.05.16 a'r Materion yn Codi	
2.1	Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion.	
2.2	Rhaid oedd cytuno ar y mecanwaith o ran talu'r £10,000 oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Cam Gweithredu: Bydd YS yn cymryd camau dilynol.	YS
3	Sesiwn Ffocws a Diben y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) (Economi)	
3.1	Rhoddodd DM ddiweddariad am y cynnydd ers y cyfarfod diwethaf. Aeth ati i	

	grynhai cynnwys dogfen Ffocws a Diben y BGC a gylchredwyd cyn y cyfarfod. Ei obaith oedd y byddai canlyniad y trafodaethau heddiw yn sylfaen i agendâu cyfarfodydd y dyfodol.	
3.2	Awgrymodd DM y dylai'r Bwrdd ddewis un flaenoriaeth yn y ddogfen i'w thrafod ac y dylai neilltuo digon o amser er mwyn i bob aelod o'r Bwrdd gyfrannu. Argymhellodd gynnal gweithdy hanner diwrnod gan ddechrau, o bosib, â sesiwn gyffredinol i drafod yr economi. Cytunwyd ar hyn. Cynigiodd ME ddarparu hwylusydd i'r gweithdy. Gofynnodd DM i'r Bwrdd fanteisio ar hwyluswyr Cyfoeth Naturiol Cymru. Cam Gweithredu: Bydd ME yn trefnu hwyluswyr drwy Gyfoeth Naturiol Cymru.	ME
3.3	Nododd MJ y byddai hyn o ddefnydd mawr wrth geisio crisialu'r datblygiadau allweddol ac er mwyn osgoi dyblygu. Byddai o gymorth i greu'r cyswllt rhwng Heddlu De Cymru a'r economi.	
3.4	Gofynnodd ME ai'r ffordd orau fyddai mynd drwy bob eitem yn y ddogfen neu a ddylid mynd drwyddi fesul sefydliad. Cytunwyd y byddai'r gweithdy ym mis Medi yn canolbwyntio ar yr economi ac ar faterion cysylltiedig.	
3.5	Nododd JT y dylid cynnwys cynllun trafndiaeth Pen-y-bont ar Ogwr.	
3.6	Soniodd HJ fod angen hoelio sylw ar yr hyn sy'n cynnig gwerth ychwanegol a'r gwahaniaeth y gellir ei wneud.	
3.7	Nododd HD y potensial o ran datblygu Academi Gofal Sylfaenol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae Prifysgol Abertawe yn gallu cael gafael ar gyllid drwy Fargen Ddinesig Abertawe.	
3.8	Rhododd YS drosolwg o'r data poblogaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y diffyg swyddi o safon, y ffaith bod rhagor o blant yn byw mewn tldi a chynnydd yn nifer y bobl oedran gwaith heb gymwysterau.	
3.9	Gofynnodd HJ a fyddai modd cael gafael ar ddata MALIC (Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru). Cam Gweithredu: Bydd YS yn darparu'r data MALIC perthnasol.	YS
3.10	Nododd DM y bydd yr Aseiad Llesiant yn sail i waith y BGC. Fodd bynnag, mae'r aelodau eisoes yn deall yr hyn y gellir ei gyflawni.	
3.11	Awgrymodd DM y dylai'r gweithdy gynnwys naratif o'r sefyllfa gyfredol a dylid cynnwys pobl sy'n arbenigo mewn mentrau economaidd, e.e. y Fargen Ddinesig.	
3.12	Cytunodd AS fod hwn yn ddull cytbwys o weithio yn ei olwg ef. Gallai Llywodraeth Cymru ddod o hyd i arbenigwyr i'r gweithdy. Cam Gweithredu: YS/JJ yn cysylltu â Llywodraeth Cymru.	YS/JJ
3.13	Cytunodd DM fod angen i'r BGC fynd gam ymhellach a nododd y byddai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/y Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn croesawu canllawiau ynghylch y modd y gall hynny gyfrannu i rai o'r nodau 'llai amlwg'.	
3.14	Awgrymodd WE y gallai'r dull hwn o weithio fod yn sail i strwythur y BGC a'r is-grwpiau yn y dyfodol. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddeg yn ystyried strwythurau ar hyn o bryd. Gofynnodd hefyd a fyddai modd cynnwys Horizon Scanning yn y gweithdy, gan roi pwyslais penodol ar brosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd.	
3.15	Rhybuddiodd JD rhag colli golwg ar Fargen Ddinesig Abertawe a'r cyfleoedd a allai fod yn agored i Ben-y-bont ar Ogwr. Soniodd hefyd am yr angen i ganolbwyntio ar bethau penodol yn y gweithdy ac awgrymodd y dylid datblygu briff clir o ran cyfraniadau'r aelodau.	
3.16	Yn ddiweddar, aeth ME i gyfarfod Ardal Fenter Ffordd yr Harbwr. Stephen	

